TAI CANOLBARTH CYMRU
MID-WALES HOUSING

Yn barod **amdani** **Equal** to the challenge

Hunanasesiad

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru

A) Cyflwyniad

Sefydlwyd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn 1975 ac mae ganddi dros 1200 o anheddau ledled Powys a Cheredigion yn ogystal â nifer fach o anheddau yn Swydd Amwythig.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi hunanasesiad o Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn unol gyda'r canlyniadau cyflawni a argymhellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r canlyniadau cyflawni yn cyfeirio at:

a) Set o ganlyniadau llywodraethu ac ariannu[1] - sut yr ariannwn ac y rheolwn ein busnes er mwyn cyflawni canlyniadau ar gyfer tenantiaid a chymunedau. Mae'r rhain yn ymwneud â sut y caiff gweithgareddau eu cefnogi a'u cynnal e.e. llywodraethu a rheoli ariannol, hyfywedd, cynllunio a rheoli perfformiad, cynhwysiant cymdeithasol a chyfathrebu ac ati. Dylai'r canlyniadau cyflawni hyn fod yn sylfaenol i'r ffordd y mae landlordiaid cymdeithasol yn ymddwyn ac yn cynnal eu busnes. Dylent fod yn rhan annatod o unrhyw weithgareddau sy'n cael eu cyflawni.

b) Set o gysylltiadau gwasanaethau landlordiaid – sut y darparwn wasanaethau landlordiaid effeithlon ac effeithiol. Mae'r rhain yn ymwneud â phrif weithgareddau gwasanaethau gan gynnwys meysydd megis rheoli tai a gosodiadau, cynnal a chadw eiddo a datblygu eiddo.

B) Methodoleg

Ystyriodd Bwrdd y Gymdeithas yr angen i gynnal hunanasesiad ym Mehefin 2010 a thrafod y dull gweithredu bras y dymunai ei ddefnyddio. Yr egwyddorion bras a gytunwyd oedd:

- System syml yn adeiladu ar ddata presennol ar reoli perfformiad a rhoi dyfarniad syml – Gwael/Boddhaol/Da/Rhagorol.
- System a fedrai esblygu i roi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o flwyddyn 1
- Integreiddio'r casgliadau i broses ehangach Cynllunio Busnes

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru – Datblygu fframwaith rheoleiddio modern ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru – Canlyniadau cyflawni

- System gynwysedig ar gyfer herio dyfarniad swyddogion drwy Banel Craffu yn cynnwys Aelodau a chynrychiolwyr Tenantiaid.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf, ystyriodd yr aelodau y broses ymhellach a chytuno:

- Amserlen ar gyfer yr adolygiad, i fod yn sylfaen i'r broses cynllunio busnes;
- Bod swyddogion yn cynnal asesiad dechreuol
- Ffurfio Panel Craffu i herio barn swyddogion a'r dystiolaeth ar gyfer barn o'r fath
- Ystyried casgliadau'r gwaith hwn, gan gadw cyfrifoldeb am ddyfarniadau terfynol ar berfformiad.

Ystyriwyd casgliad y gwaith uchod mewn cyfarfod arbnenig o'r Bwrdd ar 12 Ionawr 2011 lle cafodd rhai o'r dyfarniadau a gytunwyd gan y Panel Craffu eu herio a newidiwyd casgliadau terfynol. Tynnwyd sylw at y camau gweithredu a gytunwyd ar gyfer y dyfodol, a chytunwyd fod angen i'r rhain fod yn gydnaws â'r Cynllun Busnes a chytunwyd ar dargedau priodol. Dirprwywyd awdurdod i gwblhau'r cynllun gweithredu a llofnodi'r hunanasesiad i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredydd i'w rannu gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

C) Asesiad Manwl

Mae'r asesiad yn cwmpasu holl feysydd busnes presennol Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru a chaiff unrhyw feysydd lle dynodwyd fod angen gwaith pellach eu cynnwys mewn cynllun gweithredu sydd i'w weld yn atodiad 1.

a) LLYWODRAETHU A CHYLLID

(a.1) Rydym yn rhoi'r bobl sydd am ddefnyddio ein gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith – gan roi'r dinesydd yn gyntaf.

1) Mae gan y Gymdeithas wybodaeth o'i chwsmeriaid presennol a darpar gwsmeriaid a gafwyd drwy arolwg Status a gynhaliwyd yn 2009[2]. Cynhaliwyd ymarfer proffilio tenantiaid fel rhan o'r arolwg a chaiff hyn ei ymestyn i'r tenantiaid na chymerodd ran yn yr arolwg. Medrir gweld siart manwl yn dangos data proffil tenantiaid ac ymgeiswyr a

[2] Arolwg Status a gwblhawyd gan Feedback Services yn 2009

gasglwyd hyd yma yn atodiad 2. Mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd dyddiau tenantiaid fel rhan o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn hybu presenoldeb tenantiaid yn y CCB ac yn darparu cyfleusterau gofal plant a gweithgareddau ar gyfer plant. Yn 2010, cynhaliwyd y diwrnod tenantiaid fel digwyddiad ar wahân a dangosodd yr ymateb ei fod yn cael ei ystyried yn llawer mwy llwyddiannus. Defnyddiwyd y diwrnod hefyd fel cyfle i ymgynghori â thenantiaid ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn defnyddio gêm tai ryngweithiol a defnyddiwyd yr adborth fel rhan o'r ymarferiad cynllunio busnes ar gyfer 2011/12. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn a chyfeiriodd at hyn yn y cynllun gweithredu. ***Pwynt Gweithredu 1***

2) Caiff darpar gwsmeriaid eu harolygu pan ystyrir datblygiadau newydd mewn ardal. Mae ymgynghoriad diweddar wedi cynnwys y tenantiaid sy'n byw yn ymyl y datblygiadau arfaethedig ym Mhonterwyd a'r Faenor yn y Drenewydd. Cafodd y datblygiadau arfaethedig eu newid weithiau fel canlyniad i ymgynghori, er enghraifft i gynnwys tai un ystafell wely yn y Drenewydd ac i gynorthwyo i gynnal y gymuned ym Mhonterwyd (mae datblygiad i Gymdeithas yn y pentref wedi cynnal lefel plant oedran ysgol yn y pentref a gostwng y bygythiad i gau'r ysgol).

3) Pan fydd y Gymdeithas yn cynnal unrhyw adolygiad sylweddol o wasanaethau, mae'n sicrhau y caiff tenantiaid, Aelodau Bwrdd a staff eu cynnwys fel aelodau o'r tîm adolygu, ac yn y rhan fwyaf o achosion ymgynghorir â hwy ar y cyd hefyd. Caiff tenantiaid hefyd eu cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu eraill megis yr adolygiad blynyddol o'r adolygiad Strategaeth Leol ar Gyfranogiad Tenantiaid. ***Pwynt Gweithredu 2.***

4) Caiff polisïau allweddol eu hystyried gan aelodau'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr. Eir â chynllun polisïau yr adolygiad blynyddol i'r Fforwm eu hystyried; rhoddir cyfle i aelodau'r fforwm benderfynu pa rai o'r polisïau a drefnwyd ar gyfer adolygiad yr hoffent gael eu hymgynghori arnynt. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn a chyfeiriodd at hyn o fewn y cynllun gweithredu. Penodwyd Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid yn ddiweddar a rhagwelir y bydd hyn yn gwella ymgyfraniad tenantiaid.

5) Ffurfiwyd grŵp ymgynghori tenantiaid, MW50, rai blynyddoedd yn ôl. Diben y grŵp yw gweithredu fel grŵp tenantiaid a all gwblhau arolygon sy'n fodlon cael eu cynnwys mewn adolygiadau gwasanaeth, gweithredu fel 'byrddau seinio' ar gyfer arolygon

unigol neu gynorthwyo gydag unrhyw waith ymgynghori oedd angen ei gynnal gyda grŵp bychan o bobl. Fe'i enwyd i adolygu amcan cymedrol o recriwtio hanner cant o wirfoddolwyr o'r fath, mae bron bedwar ugain o aelodau erbyn hyn.

6) Cofnodir unrhyw ymgynghoriad gyda thenantiaid a phreswylwyr mewn siart canolog ar gyfer dibenion monitro.

7) Cytunwyd ar set glir o Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid fel canlyniad i'r adolygiad o Safonau Gwasanaeth yn 2007 ac maent ar gael i denantiaid yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ar y wefan os dymunir. ***Pwynt Gweithredu 3.***

   Datblygwyd Datganiad Cenhadaeth rai blynyddoedd yn ôl a rhoddir cyhoeddusrwydd eang iddo. Mae gan y Gymdeithas y gallu ariannol i gyflawni hyn. Mae'r Gymdeithas yn ddiweddar wedi cynnal ymarferiad ail-frandio cynhwysfawr pan ystyriodd hunaniaeth yr holl sefydliad a'i lle o fewn cymunedau'r Canolbarth. Un o'r canlyniadau fu cynhyrchu Datganiad Cenhadaeth newydd gyda mwy o ffocws i hyrwyddo ei nodau craidd - ***"Gwneud cartrefi o safon yn fforddiadwy i fwy o bobl yng Nghanolbarth Cymru".***

8) Mae'r Gymdeithas wedi datblygu un pwynt cyswllt ar gyfer cwsmeriaid ac wedi cyflwyno rhif ffôn 0300 sy'n ffi safonol rhesymol p'un ai yw'r defnyddiwr yn defnyddio llinell daear neu ffôn symudol. Mae'r rhif 0300 111 3030 hefyd yn un rhwydd ei gofio.

9) Cafodd y wefan ei hailgynllunio yn ddiweddar ac fe'i datblygwyd gyda thenantiaid dan sylw er mwyn ei gwneud yn rhwyddach cysylltu gyda'r Gymdeithas, a darparu ystod eang o gefnogaeth ymarferol. Gall tenantiaid hysbysu eu bod angen gwaith atgyweirio, gwneud adroddiad am gŵyn neu ganmoliaeth, gwneud taliad, gofyn am gyfarfod, defnyddio cyfrifydd budd-daliadau ac ychwanegu sylwadau cyffredinol ar-lein. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar asiantaethau y mae'n gweithio gyda hwy a dolenni i'r rhain hefyd. Caiff gêm tai ymgynghorol "Gwario" ei datblygu i fod yn ddull o ymgynghori ar-lein. Er mai dull ar gyfer dylanwadu ar flaenoriaethau yw ar hyn o bryd, yn y tymor hwy caiff ei datblygu i fod â dylanwad uniongyrchol ar wariant. ***Pwynt Gweithredu 1.***

10) Mae gan y system rheolaeth tai gyfrifiadurol gyfleuster i recordio negeseuon ar gyfer aelodau staff a medrir rhoi cyfeirnod i alwyr. Cyflwynwyd hyn fel canlyniad uniongyrchol

i adborth gan denantiaid. Datblygwyd y system yn defnyddio amserau gosod i staff ffonio tenantiaid yn ôl. Medrir monitro'r wybodaeth yma.

11) Dynododd arolwg Status ei bod yn rhwydd cysylltu â'r Gymdeithas gyda 72% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn fodlon iawn gyda pha mor gyflym y caiff eu hymholiad ei drin. Canfu 79% hi'n rhwydd cael gafael ar y person cywir, er bod hyn hefyd yn nodi y medrir gwneud gwelliannau. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn a chynhyrchwyd cynllun gweithredu yn deillio o'r arolwg Status. Cynhwysir hyn o fewn y cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

12) Mae Cydlynwyr Tai yn trefnu ymweliadau rheolaidd i stadau gyda Chydlynwyr Rheoli Asedau ac mae'r ddau'n gweithio'n agos i ddatblygu cysylltiadau gyda thenantiaid yn eu hardaloedd.

13) Mae'r Llawlyfr Tenantiaid yn cynnwys manylion clir ar safonau gwasanaeth a safonau ailosod. Ymgynghorwyd â grwpiau tenantiaid ar y safonau hyn. ***Pwynt Gweithredu 4.***

14) Cyhoeddir taflen perfformiad chwarterol yn cynnwys eitemau rheolaidd ar berfformiad diweddar mewn gwahanol feysydd gwasanaeth. Mae'r daflen hefyd yn cynnwys adborth ar unrhyw ymgynghoriadau diweddar neu arolygon a gynhaliwyd o fewn y chwarter. Caiff yr wybodaeth yma hefyd ei chyhoeddi ar wefan y Gymdeithas. Datblygwyd y daflen chwarterol mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau tenantiaid eu bod eisiau adborth ar ganlyniadau'r ymarferiad y gofynnwyd iddynt gymryd rhan ynddo.

15) Mae'r Adolygiad o Daliadau Gwasanaeth diweddar yn enghraifft arall ddiweddar o ymgynghoriad yn dylanwadu ar newid. Awgrymodd adborth gan denantiaid y dylid ffurfio Grŵp Sefydlog Adolygu Taliadau Gwasanaeth i ymgynghori yn barhaus ar y taliadau a godir a'r gwasanaeth a ddarperir. Cafodd y dull o hysbysu tenantiaid a phreswylwyr am eu tâl gwasanaeth ei newid i ffurf adrodd cliriach fel canlyniad i'r adolygiad. Caiff tenantiaid eu harolygu i ganfod eu barn ar y fformat newydd. ***Pwynt Gweithredu 5.***

16) Mae'r Gymdeithas yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, adroddiad perfformiad blynyddol[3], taflenni perfformiad chwarterol a thri rhifyn o gylchlythyr tenantiaid LOOK (cynyddir i bedwar rhifyn yn 2011). Caiff yr holl wybodaeth a gyhoeddir ei rhoi ar wefan

[3] Dan adolygiad

y Gymdeithas yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gan y Gymdeithas Linell Iaith ar waith ar gyfer y cwsmeriaid hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy iaith arall fel rhan o'i Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

17) Mae gan y Gymdeithas gysylltiadau agos gyda'r awdurdodau lleol y mae'n gweithredu ynddynt – Ceredigion a Phowys – mewn nifer o ffyrdd strategol a gweithredol.

18) Mae staff yn mynychu cyfarfodydd o gynghorau cymuned a chynghorau tref lle'n berthnasol i ymgynghori a rhoi gwybodaeth ar unrhyw ddatblygiadau newydd neu waith y gall y Gymdeithas fod yn ei wneud o fewn eu hardal.

19) Mae'r Gymdeithas yn gweithio'n agos gyda'r pedwar Swyddog Galluogi Tai Gwledig, gan gynorthwyo gydag ariannu Swyddog Galluogi Tai Gwledig Gogledd Powys, Swyddog Galluogi Tai Gwledig Canol Powys a Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ceredigion. Mae pedwerydd Swyddog Galluogi Tai Gwledig yn gweithio yn ne Powys, fodd bynnag, nid yw'r Gymdeithas yn ariannu'r swydd yma.

20) Mae gan y Gymdeithas weithdrefn ar gyfer cwynion a gaiff ei chofnodi a'i monitro'n fewnol. Caiff nifer y negeseuon sy'n cwyno neu'n canmol eu hadrodd yn y daflen chwarterol i denantiaid ac yn fisol i'r Bwrdd Rheoli drwy system adroddiadau Metrics[4] y Gymdeithas.

21) Datblygwyd cerdyn post cwynion a chanmoliaeth ei datblygwyd rai blynyddoedd yn ôl i annog adborth. Rhoddir y rhain y denantiaid a phreswylwyr pan maent mewn cyswllt gyda staff a phan anfonir unrhyw ohebiaeth at bob tenant a phreswylydd. Mae'r cardiau'n gyfle i roi sylwadau cyfrinachol ar y gwasanaethau a roddir gan y Gymdeithas a'i staff. Medrir hefyd gyflwyno canmoliaeth neu gŵyn i'r Gymdeithas drwy'r wefan.

22) Defnyddir cwynion fel sylfaen ar gyfer gwella cyflenwi gwasanaeth i denantiaid. Er enghraifft, mae nifer fechan ond amlwg yn ddiweddar o gwynion am safon ailosodiadau wedi arwain at ail-edrych ar y safon ei hunan. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn ac adlewyrchir hyn o fewn y cynllun gweithredu. Mae'r siart islaw'n dynodi'r meysydd cwynion a gafodd eu trafod gan y Gymdeithas ers y cychwynnwyd cofnodi ffurfiol o fewn y System Rheolaeth Tai ym mis Ebrill 2009. ***Pwynt Gweithredu 3.***

[4] Mae system Metrics yn 'fesurfwrdd' ar lefel Bwrdd

Dyraniadau	Contractwyr	Ailgodi	Atgyweirio	Gwasanaeth	Tâl Gwasanaeth	Staff	Rheoli Tenantiaeth
2	6	3	8	42	7	10	24

23) Gall y Bwrdd Rheoli, ar unrhyw un amser, fod â hyd at bedwar Aelod Bwrdd a etholir gan denantiaid. Caiff holl Aelodau newydd y Bwrdd, yn cynnwys tenantiaid, eu mentora'n anffurfiol gan Aelod penodol sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hirach. Gall dau aelod o'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr hefyd fynychu unrhyw gyfarfod Bwrdd fel sylwedyddion os dymunant. Gall tenantiaid eraill wneud cais i fynychu ar sail cyntaf i'r felin, gan fod y lle yn gyfyngedig. Yn ystod 2010/11 mae'n fwriad gan y Bwrdd gynnal rhai o'i gyfarfodydd mewn rhannau eraill o'r Canolbarth i annog tenantiaid i fynychu. ***Pwynt Gweithredu 6.***

24) Gwahoddir cynrychiolydd o Gynghorau Powys a Cheredigion hefyd i fynychu'r Bwrdd fel sylwedyddion, er fod lefel eu presenoldeb yn amrywio. Gall cynghorwyr hefyd fynychu os gwneir cais ac ar sail cyntaf i'r felin, gan fod nifer y lleoedd yn gyfyngedig.

Canlyniadau Cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Rydym yn adnabod defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr ein gwasanaethau ac yn teilwra ein gwasanaethau a'n gweithgareddau'n unol â hynny.	**Boddhaol**
Rydym yn annog ac yn cynorthwyo tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan yn gynnar yn y gwaith o lunio ein gwasanaethau, adolygu ein perfformiad a datblygu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.	**Boddhaol**
Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer y bobl sydd am ddefnyddio ein gwasanaethau ac rydym yn ystyried eu gofynion, eu hamgylchiadau a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.	**Boddhaol**
Mae'n hawdd cysylltu â ni, rydym yn ymateb mewn modd effeithlon ac amserol ac rydym yn sicrhau y caiff unrhyw gyswllt diangen ei osgoi.	**Da**
Rydym yn ei gwneud yn hawdd i bobl ddeall yr hyn y dylid ei ddisgwyl o'n gwasanaethau a sut i gael gafael arnynt.	**Da**
Rydym yn cyfleu gwybodaeth a chyngor yn briodol, yn amserol, ac yn effeithiol, ar ffurf sy'n hawdd ei deall gan y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.	**Da**
Rydym yn gwerthfawrogi barn y bobl sydd am ddefnyddio ein gwasanaethau ac rydym yn ymateb iddi.	**Da**
Rydym yn atebol i'n tenantiaid a defnyddwyr ein gwasanaethau.	**Da**
Rydym yn ei gwneud yn hawdd i bobl roi gwybod i ni pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, neu pan fyddant eisiau gwneud cwyn, er mwyn i ni allu unioni pethau ar unwaith. Rydym yn dysgu o gwynion, gan eu defnyddio i wella ein gwasanaethau.	**Da**

(a.2) ***Rydym yn ymfalchïo yng ngwerthoedd y sector cyhoeddus drwy gynnal ein busnes â gonestrwydd ac uniondeb, ac yn dangos llywodraethu da drwy ein hymddygiad.***

25) Mae'r Gymdeithas yn agored am ei gwaith, gan gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd drwy'r adroddiad blynyddol, yr adroddiad perfformiad blynyddol, taflenni chwarterol, y cyfryngau ac ar ei gwefan. Mae'n sicrhau fod yr holl wybodaeth ar gael i bob dinesydd. ***Pwynt Gweithredu 7.***

26) Annog ystod eang o ddiddordebau i wneud cais i ymuno â'r Bwrdd Rheoli. Mae'n anelu i sicrhau lefel dda o sgiliau a gallu ar ei Bwrdd Rheoli. Mae'r Gymdeithas yn cynnal gwerthusiadau rheolaidd ddwywaith y flwyddyn er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sgiliau tybiedig, ac yn ceisio recriwtio Aelodau newydd i'r Bwrdd i ateb unrhyw ddiffyg tybiedig. Mae manylion aelodau presennol y Bwrdd ar gael ar wefan y Gymdeithas yn y ddolen ddilynol: http://www.midwalesha.co.uk/cymraeg/llywodraethu. ***Pwynt Gweithredu 7.***

27) Ymatebir i unrhyw geisiadau am wybodaeth yn amserol a dim ond ar seiliau cyfreithiol megis dan y Ddeddf Diogelu Data y'i gwrthodir. Mae croeso i denantiaid weld eu ffeiliau drwy apwyntiad gyda'u cydlynydd tai. Fel rhan o arolwg Status, gofynnwyd i denantiaid sut y dymunent i'r Gymdeithas gysylltu â hwy: drwy lythyr oedd dewis 82.4%, gyda'r dulliau eraill o gyswllt a ffafrif dros y ffôn, ymweliad personol a chylchlythyr LOOK a gyhoeddir ar gyfer tenantiaid. Canfu'r arolwg hefyd fod 85.6% yn fodlon gyda'r ffordd y mae'r Gymdeithas yn eu hysbysu am faterion sy'n effeithio arnynt fel tenantiaid. ***Pwynt Gweithredu 8.***

28) Dangosodd cyfrifiad 2001 yn yr ardaloedd y mae'r Gymdeithas yn gweithredu ynddynt bod 99.1% o'r boblogaeth yn disgrifio eu hunain fel gwyn, 30.8% o'r boblogaeth yn byw mewn cartref ar rent a 15.9% wedi ymddeol. Medrir gweld manylion proffiliau cyfredol tenantiaid ac ymgeiswyr yn y siart yn atodiad 2. ***Pwynt Gweithredu 9***

29) Cynhaliodd y Gymdeithas adolygiad o'i Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn 2008 yn cynnwys tenantiaid a chynrychiolydd o Tai Pawb ar y tîm adolygu ynghyd ag Aelodau Bwrdd a staff. Datblygodd y staff y polisi a strategaeth presennol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ynghyd â "chynllun gweithredu" a gynlluniwyd i gwmpasu pob maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, a adolygir bob blwyddyn gan y Bwrdd. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn ac adlewyrchir hyn o fewn y cynllun gweithredu. ***Pwynt Gweithredu 9***

30) Mae polisi recriwtio'r Gymdeithas yn strwythuredig iawn gan adlewyrchu dull anwahaniaethol y Gymdeithas o recriwtio staff ac Aelodau Bwrdd.

31) Mae'r Gymdeithas wedi ennill symbol ✓✓ Cadarnhaol am Anabledd, a adolygir yn flynyddol. Mae symud i swyddfa newydd wedi bod o fudd mawr i bobl gyda phroblemau symudedd oherwydd fod ganddi fynediad gwastad,

32) Mae gan y Gymdeithas Bolisi Iaith Gymraeg clir a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n nodi y bydd yr holl ddeunydd a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r wefan a'r system ffôn yn ddwyieithog.

33) Rhoddir adroddiad misol i'r Bwrdd Rheoli ar y cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg, a hefyd y cynllun gweithredu Cydraddoldeb ac Amryiwiaeth, a chânt eu hadolygu'n flynyddol.

34) Mae dau aelod o staff yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, ac mae aelodau eraill o staff yn dysgu'r iaith ac ar wahanol lefelau gallu. Mae'r Gymdeithas wedi cyhoeddi dalen gallu Cymraeg yn fewnol fel bod staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gwybod i ba gydweithwyr y medrant ofyn am gymorth wrth ddelio gyda chleientiaid. Mae gan y Gymdeithas system i ddynodi'r swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn hanfodol a defnyddir hyn wrth recriwtio yn y dyfodol. ***Pwynt Gweithredu 10.***

35) Mae'r Gymdeithas yn ymdrechu i wella amgylchiadau cymdeithasol ac amgylcheddol yn y gymuned drwy ddefnyddio a hyrwyddo cyfeirio at asiantaethau perthnasol. Mae perthynas weithio agos rhwng y Gymdeithas, CAB ac Undebau Credyd lleol.

36) Adeiledir pob datblygiad i wella cynaliadwyedd. Mae'r Gymdeithas yn rhoi bwyleri cyddwyso effeithiol iawn Worcester Greenstar yn lle boeleri presennol fel rhan o'i rhaglen gynlluniedig.

Canlyniadau Cyflawni	**Dyfarniad y Gymdeithas**
Rydym yn agored am yr hyn a wnawn ac yn cyhoeddi gwybodaeth gytbwys am ein gweithgareddau.	**Da**
Rydym yn darparu gwybodaeth ar gais mewn ffordd gywir, amserol ac effeithiol oni bod rhesymau cyfiawnadwy dros beidio â'i chyflwyno	**Rhagorol**
Mae ein gweithgareddau a'n gwasanaethau'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn gweithredu ydynt, maent yn rhydd o wahaniaethu ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal.	**Boddhaol**
Rydym yn trin yr iaith Gymraeg a Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.	**Boddhaol**
Rydym yn gwella amgylchiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn y gymuned leol.	**Da**

(a.3) ***Rydym yn sicrhau bod ein diben yn glir ac rydym yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd gennym – gan wybod pwy sy'n gwneud beth a pham.***

Mae'r Gymdeithas bob blwyddyn yn adolygu ei chynllun busnes pum-mlynedd a sut y bydd ei gweledigaeth a gwerthoedd yn llywio ei gweithgareddau a gwella canlynaidau gwasanaeth i denantiaid dros y pum mlynedd nesaf.

37) Mae gan y Gymdeithas Fwrdd Rheoli clir yn cynnwys gweithwyr proffesiynol gwirfoddol o bob sector sy'n dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad i'r Gymdeithas. Mae polisi a gweithdrefn recriwtio clir ar waith ar gyfer pob darpar Aelod Bwrdd yn cynnwys ymgeiswyr sy'n gwneud cais. Ni all fod mwy na pymtheg aelod yn cynnwys cyfanswm o hyd at bedwar o denantiaid aelodau. Ymgynghorwyd â MW50 yn 2010 er mwyn cael eu barn ar y dull mwyaf addas o recriwtio tenantiaid i'r Bwrdd. Cynhelir etholiad blynyddol ac etholir tenantiaid gan eu cyd-denantiaid. Ychydig o ddiddordeb sydd mewn sefyll etholiad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gyda phenodi Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid yn ddiweddar, bydd hon yn flaenoriaeth uchel i hyrwyddo a recriwtio mwy o denantiaid i ddod yn Aelodau Bwrdd. ***Pwynt Gweithredu 6.***

38) Caiff Aelodau Bwrdd eu gwerthuso bob dwy flynedd gan ymgynghorydd annibynnol o'r Asiantaeth Datblygu Bwrdd a defnyddir y canlyniadau i ddynodi meysydd lle medrid gwella llywodraethu'r sefydliad drwy recriwtio a/neu hyfforddiant. Mae gwerthuso Aelodau Bwrdd yn dangos gwelliant amlwg ers y cynhaliwyd y gwerthusiad cyntaf yn 2008. Dangosir yr adborth yn y siart dilynol:

BDA **Sgorau Meincnodi Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru**

	2008	2011
Gweledigaeth, Gwerthoedd a Phwrpas	24%	75%
Gosod Nod	20%	85%
Strwythur Llywodraethu	18%	78%
Datblygu Polisi	45%	82%
Uniondeb ac Atebolrwydd	16%	70%
Personol, Pobl ac Aelodaeth	45%	74%
Prosesau Cefnogi	14%	70%
Cyrraedd Safon Arweinyddiaeth Gymunedol	35%	73%
Cyfanswm cyfartaledd	**27%**	**76%**

Allwedd Sgôr

Rhagorol	80%+
Arfer Gorau	61-80%
Arfer Da	41-60%
Cydymffurfiaeth	20-40%
Methiant	Dan 20%

39) Mae'r broses Cynllunio Busnes flynyddol yn cynnwys Aelodau Bwrdd, y Grŵp Uwch Swyddogion, y Tîm Rheoli Gweithredol a thenantiaid ar wahanol gamau. Bu gan y gêm tai rôl bwysig mewn cynllunio busnes ar gyfer 2010, gyda'r holl wybodaeth a gasglwyd yn cael ei bwydo i'r broses. Bydd y gêm ar gael ar wefan y Gymdeithas dan deitl 'Gwario'.

40) Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli yn ddeufisol ar fin nos (yn weithredol o 1/4/2011), gydag agenda wedi'i strwythuro. Dynodwyd cyfarfodydd mis Awst a mis Chwefror fel rhai "strategol" a strwythurir yr agenda i ganiatáu trafodaeth eang o'r amgylchedd busnes. Caiff eitemau arferol eu hystyried ym mhob cyfarfod, yn cynnwys y cyfrifon rheoli a system adrodd ar berfformiad Metrics sy'n defnyddio dull cerdyn sgorio cytbwys a gyflwynwyd yn 2008 yn dilyn adolygiad ffurfiol o lywodraethu.

41) Mae rheolau sefydlog clir ar waith.

42) Ffurfiwyd Pwyllgor Craffu hefyd yn dilyn yr adolygiad o lywodraethu yn 2008. Ar hyn o bryd mae hyn yn cyfarfod bob mis (ac eithrio misoedd Ebrill, Awst a Rhagfyr) i edrych ac archwilio'r map risg, adroddiadau archwiliad mewnol a monitro cyflenwi argymhellion ar gyfer gwelliannau a gytunwyd drwy'r gwahanol gynlluniau gweithredu yn deillio o'r archwilion ac Adolygiadau Gwelliant Parhaus. Mae'r Gymdeithas yn defnyddio ffurf safonol ar gyfer adroddiadau sy'n sicrhau y caiff risg yn gysylltiedig gyda phob gweithgaredd/maes polisi ei drafod yng nghyswllt y risg.

43) Mae'r Gymdeithas yn annibynnol oddi wrth gyrff eraill ac yn gweithredu'n unol â chyfansoddiad perthnasol ac er budd gorau ei thenantiaid. Mae'r Gymdeithas yn gweithredu o fewn rheolau enghreifftiol sy'n cael eu newid ar hyn o bryd i fabwysiadu statws elusennol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol bresennol (2010/11).

44) Mae'r Gymdeithas wedi'i halinio i gyflawni ei phwrpas ac mae ganddi'r galluedd a'r sgiliau i wneud hynny. Mae'r Gymdeithas bob blwyddyn yn cynhyrchu Cynllun Busnes pum-mlynedd sy'n gynnyrch ar y cyd y Bwrdd Rheoli a'r uwch staff rheoli. Mae cyflawni amcanion allweddol y Cynllun Busnes yn ffurfio'r ffocws ar gyfer y system gwerthusiad staff blynyddol, gydag amcanion a thargedau ar gyfer yr holl staff yn cael eu gosod i alinio gyda'r Cynllun Busnes. Y bwriad yw bod yr holl staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn deall yr amcanion busnes uniongyrchol a'u rôl yn eu cyflawni.

45) Mae polisïau ar waith i gefnogi'r sefydliad a'r Bwrdd Rheoli.

46) Mae'r Gymdeithas yn rhan o drefniant cydweithio gyda phedair Cymdeithas Tai arall. Dan "Undod", mae'r Gymdeithas wedi buddsoddi mwy o arian a sicrhau arbedion. Mae wedi cytuno ar y cyd i safoni elfennau fydd yn sicrhau arbedion drwy brisiau prynu a gytunwyd.

47) Cafodd y system rheoli perfformiad presennol ei datblygu i adlewyrchu'r hyn y mae'r Bwrdd Rheoli yn ei ystyried yn ddata busnes pwysig (Metrics). Mae'r Bwrdd Rheoli'n adolygu'r wybodaeth y mae ei hangen yn flynyddol, ac yn monitro perfformiad yn fisol. Mae'r Gymdeithas wedi dechrau defnyddio "Covalent" yn ddiweddar - system technoleg gwybodaeth generig i adrodd gwybodaeth perfformiad misol, a chaiff yr holl ddata rheoli perfformiad yn cynnwys "risg" a'r gwahanol "gynlluniau gweithredu" eu symud i'r system ganolog yma. Yn ystod y flwyddyn i ddod bydd y Gymdeithas yn adolygu Covalent a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gynhyrchwyd. Bydd adroddiadau'r dyfodol yn adlewyrchu'n agosach y canlyniadau cyflenwi a adroddwyd i'r Bwrdd. ***Pwynt Gweithredu 11.***

48) Caiff targedau eu hadolygu'n flynyddol a'u cysylltu gyda'r broses Cynllunio Busnes. Rhoddir blaenoriaeth uchel ar ymgyfraniad tenantiaid gyda chyflenwi gwasanaeth o fewn y Cynllun Busnes. Un o'r mesurau perfformiad allweddol yw cyflawni amcanion y Cynllun Busnes. Dangosir data ar hyn yn y siart dilynol:

Blwyddyn	Targed	Amcanion Cynllun Busnes a adroddwyd yn Metrics
2007/08	1	1.42
2008/09	1	0.75
2009/10	100%	92%
2010/11 hyd yma	100%	94.59%

49) Caiff y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol a'r Cynllun Adolygu Gwelliant Parhaus eu cynllunio i gysylltu gyda gyrwyr allweddol o fewn y Cynllun Busnes, gan greu cynllun llif gwaith systematig.

50) Mae'r Gymdeithas yn annog ymweliadau i sefydliadau a nodwyd am eu harferion da megis Grŵp Pennaf ac Ymddiriedolaeth Tai Wrekin. Mae staff hefyd yn mynychu cyfarfodydd rhwydweithiau rheolaidd Housemark a Cartrefi Cymunedol.

51) Mae adolygiadau Gwelliant Parhaus hefyd yn ceisio syniadau gan sefydliadau eraill (yn ogystal â thenantiaid a staff), ac maent yn aml wedi cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau cyffelyb ar y timau adolygu.

52) Mae'r Gymdeithas yn cynnal cynllun awgrymiadau staff a gynlluniwyd i annog arloesedd ym mhob rhan o'r sefydliad. Caiff hyn ei adolygu ar hyn o bryd. ***Pwynt Gweithredu 12***

53) Cynhelir cyfarfod wythnosol o'r staff ar ddydd Mawrth gyda'r holl staff yn mynychu gyda'r swyddfa heb fod yn agor yn ffurfiol tan 10.00am. Mae'r cyfarfod yn eithaf anffurfiol ond mae'n rhoi'r cyfle i'r Uwch Swyddogion a'r Rheolwyr i esbonio cynllun gwaith yr wythnos nesaf, ac yn gyfle i'r holl staff i ofyn cwestiynau neu godi problemau mewn gosodiad anffurfiol.

Canlyniadau Cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Mae gennym arweinyddiaeth gref ac atebol a phrosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n seiliedig ar wybodaeth i sicrhau ein bod yn cyflawni ein diben.	**Da**
Mae ein corff llywodraethu yn rheoli ein gweithgareddau yn briodol ac mae'n gweithredu er budd y sefydliad a'i denantiaid a defnyddwyr ei wasanaethau.	**Da**
Rydym yn annibynnol o gyrff eraill (oni bai ein bod yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig) ac yn gweithredu yn unol â chyfansoddiad priodol.	**Rhagorol**
Mae'r holl sefydliad yn alinio i gyflawni ei ddiben ac mae ganddo'r gallu, y sgiliau a'r dulliau i'w gyflawni'n llwyddiannus.	**Da**
Rydym yn sicrhau gwerth am arian o ran cyflawni a chaffael er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ein hunain ac adnoddau cyhoeddus.	**Boddhaol**
Mae ein gweithgaredd cynllunio, hunanasesu a rheoli perfformiad yn helpu i gyflawni ein diben ac yn sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus.	**Da**
Mae ein diwylliant yn helpu i gyflawni ein diben a'n canlyniadau, mae'n arloesi ac yn ceisio syniadau newydd ac yn gwerthuso dysgu gan eraill.	**Da**

(a.4) *Rydym yn fusnes ariannol cadarn a hyfyw*

54) Mae gan y Gymdeithas gyllid priodol ar waith i gefnogi ei Gynllun Busnes. Mae hyn yn seiliedig ar gyllideb 30-mlynedd a chynllun ariannol a ddatblygwyd yn defnyddio system BRIXX.

55) Bydd cynnal cyfamodau (yn cynnwys gerio) yn bodloni benthycwyr presennol (yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru) a dangosir hyn drwy ddefnyddio dulliau cynllunio BRIXX a hefyd FSMD. Mae dull cynllunio busnes Brixx yn galluogi addasu 'cynllun sail' i ystyried effaith gwahanol newidiadau ar y llif arian hirdymor. Yn y modelu ariannol cynllun busnes ym mis Tachwedd 2010 ar gyfer Santander, ystyriwyd y sensitifrwydd dilynol; +/- 1% RPI, +/-1% cyfraddau llog, +/-2% costau cynnal a chadw. Mae strwythur y model yn galluogi'r senarios yma i gael eu cadw o fewn yr un model cynllun busnes â chynlluniau senario. I gynorthwyo effaith y senarios hyn, cafodd yr effaith ar ad-dalu dyled a gwargedion/diffygion ei ddangos ar ffurf graffeg islaw yn Ffigur 1.



Ffigur 1

56) Mae'r Gymdeithas yn glir yn y ffordd y mae'n nodi beth mae'n ei wneud. Mae'r holl adroddiadau ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd Rheoli'n dilyn yr un templed a gytunwyd ac yn cynnwys adrannau ar y goblygiadau ariannol a risg ymysg materion allweddol eraill.

57) Mae gan y Gymdeithas fframwaith cadarn ar gyfer rheoli risg a rhoddir adroddiad ar hynny bob chwarter i'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Rheoli. Cynhelir y broses Cynllunio Busnes yn defnyddio dadansoddiad SWOT a STEEPL sy'n dynodi risgiau posibl i'r sefydliad yng nghyswllt y Cynllun Busnes newydd.

58) Caiff y Map Risg Strategol ei adolygu bob chwarter gan y Grŵp Uwch Swyddogion a'r Pwyllgor Craffu. Caiff y Map Risg Gweithredol ei adolygu'n chwarterol gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

59) Defnyddir system archwilio gadarn ar gyfer swyddogaethau archwilio mewnol (TIAA) ac archwilio allanol (Whittingham Riddell).

60) Mae gan y Gymdeithas gofrestr rhoddion a lletygarwch a gaiff ei harchwilio bob mis gan y Pwyllgor Craffu, yn ogystal â chofrestr twyll.

Canlyniadau Cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Mae gennym ddigon o adnoddau i fodloni ymrwymiadau busnes ac ariannol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.	**Da**
Mae gennym fframwaith rheoli arian cadarn.	**Da**
Gallwn nodi ac arfarnu risgiau a rheoli'r risgiau hynny'n gall.	**Da**
Mae ein gweithgareddau yn dangos y safonau uchaf o ran gonestrwydd ariannol.	**Da**

(a.5) ***Rydym yn ymgysylltu ag eraill i wella a sicrhau canlyniadau i ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'r gymuned.***

61) Mae'r Gymdeithas yn hybu gweithio partneriaeth drwy ei pherthynas gyda'r CIH, Cartrefi Cymunedol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol Powys a Ceredigion. Mae'n Aelod o'r Bartneriaeth Tai Fforddiadwy ym Mhowys ac yn annog Cyngor Sir

Ceredigion i ddatblygu fforwm tebyg. Mae hefyd yn Aelod o Fwrdd Rhaglen Adfywio Cyngor Sir Powys.

62) Cydweithiwn gyda phum Cymdeithas Tai arall yn Undod, er mwyn gwella cyflawni'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn llwyddiannus a'r gwasanaeth cynnal a chadw cynlluniedig a ddarperir i denantiaid drwy nifer o gontractwyr fframwaith y cytunwyd arnynt. ***Pwynt Gweithredu 13***

63) Caiff addasiadau i anheddau'r Gymdeithas eu darparu drwy allgyrchu Grantiau Addasu Eiddo[5] i Gofal a Thrwsio ym Mhowys ac i staff grant y Cyngor yng Ngheredigion.

64) Mae'r Gymdeithas yn cyfrannu'n ariannol at Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ym Mhowys a Cheredigion ac yn aelod gweithgar o'r grwpiau llywio perthnasol.

65) Mae wedi llofnodi Cytundebau Tai Cymunedol gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, daeth hyn i ben eleni oherwydd nad ymddengys fod cynghorau sir yn eu hystyried fel bod yn neilltuol o ddefnyddiol oherwydd cytundebau strategol eraill. Mae'r Gymdeithas yn gweithio'n agos ar lefel strategol gyda'r sefydliadau dilynol:

- Partneriaeth Tai Fforddiadwy Cyngor Sir Powys
- Bwrdd Rhaglen Adfywio Cyngor Sir Powys
- Grŵp Llywio SwyddogionTai Gwledig Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion
- Grŵp Llywio Cofrestr Tai Cyffredin Ceredigion

66) Mae'r Gymdeithas yn datblygu perthynas waith agosach gyda Tai Cantref, sy'n seiliedig yng Ngheredigion, er mwyn bod o fudd i denantiaid y ddwy Gymdeithas yng Nghanolbarth Cymru yn cynnwys gweithgareddau a gynhelir ar y cyd.

67) Gweithiwn yn agos gyda darparwyr gwasanaeth eraill i'r Gymdeithas nad ydynt efallai yn darparu gwasanaeth uniongyrchol i'r tenantiaid ond yn anuniongyrchol o fudd iddynt, megis yswirwyr y Gymdeithas, cyflenwyr offer technoleg gwybodaeth ac ati.

68) Mae'r Gymdeithas yn cyfrannu £500 y flwyddyn ar hyn o bryd i swydd Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y cyd yng Ngheredigion. Bu hyn yn weithredol am

[5] Grantiau Addasu Ffisegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

dros bum mlynedd. Cynhelir adolygiad o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd.

Pwynt Gweithredu 14

69) Mae'r Gymdeithas yn ymwneud â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys sy'n cynnwys yr heddlu, yr awdurdod lleol a llawer o asiantaethau eraill yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth prawf, cymdeithasau tai, asiantaethau cyfryngu yn cymryd dull gweithredu ar y cyd i ostwng troseddu, ofn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cynhelir pedwar cyfarfod bob chwe wythnos mewn rhannau gwahanol o Bowys. Mae cydlynwyr tai yn mynychu'r digwyddiadau yn rheolaidd. Rydym hefyd yn medru gwneud atgyfeiriadau i'r bartneriaeth a chânt eu trafod yn y cyfarfodydd, medrir weithiau wneud atgyfeiriadau gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sydd â phryderon am ein tenantiaid neu efallai stadau. Mae'r siart islaw'n dangos y gweithredu yn erbyn unrhyw denantiaid y Gymdeithas am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

	2008		2009		2010		2011	
	CTCC	Cyfan	CTCC	Cyfan	CTCC	Cyfan	CTCC	Cyfan
Trallwng	0	2	1	13	0	6	0	2
Y Drenewydd	0	3	0	6	0	0	0	5
Llandrindod	5	5	2	7	1	2	1	1
Aberhonddu	0	0	0	0	0	0	0	0
Ystrad Mynach	0	0	0	0	0	0	0	0

70) Mae cofrestr tai gyffredin yn weithredol yng Ngheredigion. Bu'r Gymdeithas yn aelod o'r grŵp llywio rheoli ers ymuno ym mis Ebrill 2010. Hyd yma mae'r gofrestr wedi gweithio'n dda i'r Gymdeithas oherwydd mai dim ond un ffurflen y mae angen ymgeiswyr ei llenwi ac nid oes neb wedi gwrthod annedd hyd yn hyn. Yn hanesyddol bu trosiant tenantiaid y Gymdeithas yng Ngheredigion yn isel iawn, ac oherwydd hyn penderfynodd y Gymdeithas benderfynu beidio 'prynu mewn' i gael mynediad i'r wybodaeth. Fodd bynnag, mae perthynas waith dda rhwng staff y Gymdeithas a staff Cyngor Sir Ceredigion er mwyn rhannu gwybodaeth.

71) Mae gwaith y Gymdeithas yn cefnogi'r awdurdod lleol i gyflawni ei rôl tai strategol drwy ei pherthynas waith effeithiol gyda'r awdurdodau lleol lle mae'n gweithio.

72) Mae'r Gymdeithas yn flaenorol wedi casglu adborth gan randdeiliaid ar gysylltiadau, gan roi adroddiad misol i'r Bwrdd. Fodd bynnag, adeg yr adolygiad blynyddol o adroddiadau Metrics, penderfynwyd nad oedd fawr o werth i'r wybodaeth ar y pryd ac

felly i beidio parhau gyda'r mesur perfformiad. Mae'r Gymdeithas wedi datblygu strategaeth farchnata yn seiliedig ar adborth gan randdeiliaid allweddol a gynlluniwyd i wella ymgysylltu gyda chymunedau'r Canolbarth, yn awdurdodau lleol a hefyd yn gynrychiolwyr etholedig fel cynghorwyr sir. Medrir gweld yr adborth o'r arolygon hyn yn atodiad 3. Mae'r adborth o'r arolygon hyn wedi ysgogi'r Gymdeithas i ailgyflwyno'r mesur perfformiad yn seiliedig ar gysylltiadau gyda rhanddeiliaid ar gyfer yr adroddiadau misol i'r Bwrdd. ***Pwynt Gweithredu 15***

Canlyniadau Cyflawni	**Dyfarniad y Gymdeithas**
Rydym yn ymgysylltu â phob parti a sefydliad perthnasol, gan roi egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ar waith i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.	**Da**
Rydym yn cydweithio ac yn ffurfio cynghreiriau priodol i ddatblygu a darparu gwasanaethau gwell, gan reoli risgiau yn briodol ac yn amddiffyn ein hasedau tai.	**Da**
Mae gennym gydberthynas gref ag Awdurdodau Lleol yn yr ardaloedd daearyddol lle rydym yn gweithredu sy'n ein galluogi i ddod o hyd i atebion effeithiol i faterion lleol a gwella canlyniadau ar gyfer cymunedau.	**Boddhaol**
Mae ein gwaith yn helpu'r Awdurdod Lleol i gyflawni ei rôl statudol o ran tai.	**Da**

b) GWASANAETHAU LANDLORIDIAID

(b.1) *Rydym yn adeiladu ac yn adnewyddu cartrefi i safon dda*

73) Mae'r Gymdeithas yn adeiladu cartrefi i Lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy, a gafodd ei wella gyda gostyngiad ychwanegol o 31% yn y gyfradd allyriadau dros reoliadau adeiladu. Mae'r datblygiadau dilynol ar y gweill gan y Gymdeithas i'w datblygu yn 2011/12 i gyrraedd y cod:

Safle Datblygu	Nifer anheddau
Dolfach	7 annedd
Crynfryn Place	19 annedd
Faenor	50 annedd
Cemaes	6 annedd
Yr Ystog	5 annedd

74) Mae'r Gymdeithas bob amser yn ymgynghori ac yn cynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a chymunedau lleol cyn datblygu cynllun.

75) Mae'r Gymdeithas yn mabwysiadu strategaeth farchnata yn seiliedig ar adborth gan gynghorwyr cymuned a thenantiaid.

76) Mae'r adborth o gyfweliadau ôl-osod yn gyson yn adrodd lefel 100% o foddhad.

77) Mae'r cynigion ar gyfer tai newydd a thai wedi eu hadnewyddu yn arddangos hyfywedd ariannol (fel y cytunwyd gan y Bwrdd Rheoli) ac yn cynrychioli gwerth am arian yn awr ac yn y dyfodol. Cynhwysir cynlluniau newydd o fewn cynllun hirdymor BRIXX; mae hyn yn weithredol ar gyfer risg sy'n hysbys ar y pryd.

78) Craffir ar bob cynllun yn defnyddio'r un meini prawf asesu hyfwyedd a gymeradwywyd ac a gytunwyd gan y Bwrdd. Cynhelir craffu ariannol hefyd ar y rhaglen datblygu, a chaiff hynny ei wirio'n rheolaidd.

79) Mae cynnal cyfyngiadau cyfamod gyda model BRIXX yn sicrhau hyder benthycwyr. Cynhwysir map risg ar gyfer pob cynllun. Mae costau'r Gymdeithas yn sylweddol uwch pan gânt eu meincnodi gyda sefydliadau eraill drwy adroddiad meincnodi blynyddol Housemark. Medrir gweld copi o Grynodeb Effeitholrwydd Housemark yn dangos gwelliannau mewn rhai meysydd perfformiad dros flynyddoedd diweddar yn Ffigur 2. Mae'r Gymdeithas yn sylweddoli y gall wella yn y maes hwn; mae manylion yn y cynllun gweithredu. Mae'r siart dilynol yn dangos nifer y datblygiadau a'r gwariant gan y Gymdeithas dros y pedair blynedd ddiwethaf. ***Pwynt Gweithredu 16.***

Blwyddyn	Cynllun	Grant	Unedau i reolaeth
2007/08	Cynllun Cymorth Prynu	£ 169,895	3
	Grant Tai Cymdeithasol	£ 1,536,644	13
	Grant Addasiadau Ffisegol	£ 112,109	
		£ 1,818,648	**16**
2008/09	Cynllun Cymorth Prynu	£ 55,355	
	Grant Tai Cymdeithasol	£ 1,670,003	30
	Grant Addasiadau Ffisegol	£ 109,362	
		£ 1,834,720	**30**
2009/10	Achub Morgeisi	£ 225,137	4
	Grant Tai Cymdeithasol	£ 1,951,803	23
	Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	£ 488,592	9
	Grant Tai Cymdeithasol D+SM	£ 14,780	
	Grant Addasiadau Ffisegol	£ 160,178	
		£ 2,840,490	**36**
2010/11	Achub Morgeisi	£ 44,571	1
	Grant Tai Cymdeithasol	£ 786,283	21
	Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol	£ 3,181,634	
	Arall (Cyngor Sir Powys)	£ 515,887	
	Grant Addasiadau Ffisegol	I'g	
		£ 4,528,375	**22**

Crynodeb Effeithiolrwydd Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru						
Gweithgaredd Busnes	**DPA Cost**	**CT Canolbarth Cymru (2009/2010)**	CT Canolbarth Cymru (2008/2009)	**DPA Ansawdd**	**CT Canolbarth Cymru (2009/2010)**	CT Canolbarth Cymru (2008/2009)
Gorbenion	Gorbenion fel % trosiant wedi'i addasu			Gorbenion fel % costau refeniw uniongyrchol		
Gweithiau Sylweddol a Chynnal a Chadw Cylchol	Cost Uniongyrchol Fesul Annedd Prif Weithiau a Chynnal a Chadw Cylchol			% anheddau'n methu cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru		
				% anheddau'n methu cyflawni isafswm graddiad SAP		
Atgyweirio Ymatebol a Gweithiau Unedau Gwag	Cost Uniongyrchol Fesul Annedd Atgyweirio Ymatebol a Gweithiau Unedau Gwag			Nifer cyfartalog dyddiau calendr i orffen atgyfeirio argyfwng		
				Nifer cyfartalog dyddiau calendr i orffen atgyfeirio brys		
				Nifer cyfartalog dyddiau calendr i orffen atgyweirio heb fod yn frys		
Datblygu	Staff yn ymwneud ag unedau safonol a ddatbygwyd fesul 100 uned			% o breswylwyr bodlon gydag ansawdd cartef newydd, arolwg 3 blynedd o gwblhau		
				Ôl-ddyledion rhent presennol tenantiaid fel % rent dyledus (llety parhaol)		
				Nifer cyfartalog dyddiau calendr i osod anheddau gosodadwy (llety parhaol)		
Datblygu	Staff yn ymwneud ag unedau safonol a ddatblygwyd fesul 100 uned			% o breswylwyr bodlon gydag ansawdd cartef newydd, arolwg o fewn 3 blynedd o gwblhau		
				Unedau safonol a ddatblygwyd fel % o'r stoc cyfredol		
Gwasanaethau Stad	Cost Uniongyrchol Fesul Annedd Gwasanaethau Stad			% tenantiaid yn fodlon gyda'u cymdogaeth fel lle i fyw		

Allwedd Chwartel							
	Chwartel Uchaf	Canol Uchaf	Canolrif	Canol Is	Chwartel Is	N/A	Dim Data
Dataset dilys							
Data set bach							

Ffigur 2

Canlyniadau Cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Rydym yn adeiladu tai o safon sy'n gynaliadwy ac sy'n diwallu anghenion hirdymor yr ardal lle y cânt eu hadeiladu ac anghenion preswylwyr presennol a darpar breswylwyr.	**Da**
Mae ein cynigion ar gyfer cartrefi newydd a rhai a adnewyddir yn dangos hyfywedd ariannol ac yn cynrychioli gwerth am arian ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym yn ystyried risgiau ac yn eu rheoli i ddiogelu ein gweithgarwch craidd o ran tai.	**Boddhaol**

(b.2) ***Rydym yn gosod cartrefi mewn ffordd sy'n deg, tryloyw ac effeithiol.***

80) Mae'r Gymdeithas yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd fwyaf o angen cartref. Mae'r polisi gosodiadau yn gweithio ar system bwyntiau yn seiliedig ar angen gan roi ystyriaeth i gategorïau ffafrio rhesymol.

81) Mae polisi gosodiadau'r Gymdeithas yn sicrhau y caiff anheddau eu gosod mewn ffordd dryloyw ac anwahaniaethol, ac yn fras yn cyfateb â'r meini prawf ym Mhowys a Cheredigion. Mae cofrestr tai gyffredin yng Ngheredigion.

82) Mae'r Gymdeithas ar hyn o bryd yn arwain ymgynghoriad cynhwysfawr ar ddyfodol dyraniadau yn yr ardal, gyda'r nod o sicrhau fod y modd y mae'n dyrannu ei chartrefi yn adlewyrchu anghenion cymunedau'r Canolbarth. Cynhelir Adolygiad Systemau Darbodus o Ddyfarniadau ar hyn o bryd fel rhan o ddull newydd i sicrhau gwelliant parhaus. ***Cynllun Gweithredu 17.***

83) Mae staff tai yn mynychu cyfarfodydd yn yr ardal lle caiff datblygiadau newydd eu creu ac yn cynorthwyo ymgeiswyr i lenwi ffurflenni i sicrhau ei bod yn rhwydd gwneud cais. Mae'r polisi gosodiadau lleol yn weithredol ym mhob pentref a chafodd ei ddatblygu mewn ymateb i anghenion y gymuned. Cytunir ar y blaenoriaethau ar gyfer dyraniadau gyda chynghorau cymuned.

84) Mae gan y Gymdeithas strategaeth addasiadau a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli ym mis Hydref 2010.

85) Mae cyllideb mân addasiadau o £5000 ar gyfer 2010/11 ac mae'r Gymdeithas yn gweithio'n agos gyda Gofal a Thrwsio i gydlynu addasiadau a darparu gwasanaeth addas i denantiaid.

86) Caiff cartrefi eu hadeiladu i safon cartrefi gydol oes. Pan ddaw anheddau yn wag sydd wedi eu haddasu'n flaenorol, mae'r Gymdeithas yn rhoi blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny sydd angen cartref wedi'i addasu.

87) Ymgynghorodd y Gymdeithas gyda'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr wrth ddatblygu ei safonau ail-osod.

88) Cedwir nifer y cartrefi gwag mor isel ag sydd modd. Cafodd targedau am unedau gwag eu cyrraedd yn gyson a rhagorwyd arnynt gyda'r amser targed yn cael ei ostwng flwyddyn ar flwyddyn fel y dangosir yn y siart dilynol.

Blwyddyn	Targed	Cyfnod Gwag Cyfartalog a nodwyd yn Metrics
2007/08	15 diwrnod	15.25 diwrnod
2008/09	15 diwrnod	14 diwrnod
2009/10	15 diwrnod	12 diwrnod
2010/11 hyd yma	12 diwrnod	12.6 diwrnod

89) Mae'r Gymdeithas yn gweithio gydag awdurdodau lleol i liniaru digartrefedd. Yr enwebiadau Digartrefedd a gytunwyd yw 50%. Mae gan y Gymdeithas gytundeb enwebu uwch gyda Chyngor Sir Powys mewn pymtheg cynllun yn amrywio rhwng 70% a 100% gosodiadau yn y saith cynllun hynny.

90) Mae cytundebau ar waith gyda darparwyr cymorth i ddarparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer grwpiau bregus mewn angen. Y darparwyr cymorth y mae'r Gymdeithas yn gweithio gyda hwy yw:

Age Concern Sir Faesyfed
Canolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn
Cartrefi Cymru
Compass Community Care
Cymryd Rhan
Datrysiadau Gofal Cymdeithasol Powys
Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Powys
Macintyre Care
Mencap Cymru
Ymddiriedolaeth Tai Cyfle
Perthyn
Prospects
Trothwy Cyf

91) Mewn partneriaeth gyda Chanolfan Argyfwng Teulu Sir Drefaldwyn, darparodd y Gymdeithas y lloches gyntaf i ddynion yng Nghymru ac mae wedi datblygu dwy foyer wledig, un yn Aberhonddu a'r llall yn y Drenewydd. Cysyniad foyer gwledig yw bod popeth ar un safle. Mae'n darparu llety ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed gyda mynediad i lety gyda chymorth a chyngor ac addysg. Y peth pwysig yw bod yr holl wasanaethau fel arfer ar un safle.

92) Mae'r Gymdeithas yn falch o'i chartrefi a'r safon ar gyfer eu gosod. Mae arolygon ar ôl gosod yn dangos fod tenantiaid yn falch gyda safon eu cartref pan maent yn symud i mewn. Ers cyflwyno system adrodd perfformiad Metrics, mae'r adborth ar gyfartaledd a dderbyniwyd o osodiadau ôl-osod gyda thenantiaid yn:

Blwyddyn	Targed	Lefel cyfartalog Boddhad Tenantiaid – Arolwg Ôl-osod
2007/08	100%	96%
2008/09	100%	94%
2009/10	100%	98%
2010/11 hyd yma	100%	94%

93) Cyflwynodd adolygiad o unedau gwag yn 2008 wobr 'Balch o fy Nghartref' i wobrwyo tenantiaid am adael eu cartrefi yn lân a thaclus. Hyd yma mae'r Gymdeithas wedi dyfarnu deg gwobr 'Balch o fy Nghartref'.

94) Mae'r Gymdeithas wedi cyflwyno lwfans addurno yn ddiweddar ar gyfer anheddau anos eu gosod yn dilyn yr adolygiad o unedau gwag.

Canlyniadau cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Rydym yn rheoli ein cartrefi i sicrhau bod galw amdanynt, a'u bod yn cael eu cynnal a'u cadw, eu moderneiddio a'u haddasu wrth i anghenion pobl newid. Rydym yn sicrhau bod ein cartrefi a addaswyd ar gael i'r rhai sydd eu hangen.	**Da**
Rydym yn lleihau nifer y cartrefi gwag cymaint â phosibl i sicrhau bod cymaint o gartrefi â phosibl ar gael a'r refeniw mwyaf posibl i ni.	**Da**
Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill i atal a lliniaru digartrefedd.	**Da**
Rydym yn sicrhau bod ein cartrefi ar gael yn deg ac yn agored, ac rydym yn gweithio gydag eraill i sicrhau y caiff llwybrau i'n tai eu cyhoeddi'n dda, a'u bod yn hawdd eu deall a'u defnyddio. Rydym yn rhoi blaenoriaeth resymol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf o ran tai neu sy'n ddigartref, gan sicrhau bod cymaint o ddewis â phosibl ar gael a chynnal cymunedau.	**Da**
Rydym yn ymfalchïo yn y cartrefi rydym yn eu gosod. Mae ein cartrefi sy'n barod i'w gosod yn bodloni disgwyliadau preswylwyr cyn iddynt symud i mewn neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl hynny.	**Da**

(b.3) ***Rydym yn rheoli ein cartrefi'n effeithiol***

95) Mae'r Gymdeithas yn rhoi tenantiaethau cychwynnol i bob tenant newydd. Ni fu unrhyw fethiannau hyd yma a bu dau achos lle cafodd y cyfnod ei ymestyn gan chwe mis. Bu'r gweddill i gyd yn llwyddiannus ar ôl deuddeg mis.

96) Ymgynghorwyd â thenantiaid a rhanddeiliaid ar y cytundebau tenantiaeth.

97) Caiff hawliau a dyletswyddau'r tenant a'r landlord eu hesbonio i denantiaid drwy'r llawlyfr tenantiaid, y cytundeb tenantiaeth a system llofnodi tenantiaeth.

98) Caiff tenantiaid eu hysbysu am y cyfleusterau sydd ar gael i ganmol neu gwyno am wasanaeth y Gymdeithas drwy'r wefan a'r cardiau post canmoliaeth a chwynion, gyda chost postio wedi ei dalu ymlaen llaw.

99) Caiff anghenion cymorth ymgeiswyr eu casglu ar y ffurflen gais a'u trosglwyddo i'r awdurdod lleol i gynorthwyo wrth gyfeirio gwasanaethau ar y bobl fwyaf bregus.

100) Casglodd arolwg Status wybodaeth proffilio tenantiaid a gafodd ei ddodi ar ffeiliau tenantiaid unigol. Yn anffurfiol, caiff gwasanaethau eu teilwra i adlewyrchu anghenion unigol sy'n hysbys, ond mae'r Gymdeithas yn cydnabod bod hwn yn faes lle medrir gwneud gwelliannau. Caiff adroddiadau proffil tenantiaid eu paratoi'n flynyddol ar gyfer y Bwrdd Rheoli.

101) Mae rhenti'r Gymdeithas yn fforddiadwy ac o fewn terfynau system meincnod Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gaiff eu hadolygu'n flynyddol. Dim ond ar 5% o anheddau y mae rhenti eithriadol.

102) Cwblhawyd Adolygiad Gwelliant Parhaus o Daliadau Gwasanaeth yn ddiweddar. Ymgynghorwyd â thenantiaid a caiff newidiadau i'r dulliau gwaith a chodi tâl eu gweithredu fel canlyniad. Ffurfiwyd grŵp ymgynghori o denantiaid hefyd er mwyn trafod codi tâl am wasanaethau. ***Pwynt Gweithredu 18***

103) Anfonir hysbysiad at bob tenant ym mis Chwefror bob blwyddyn yn eu hysbysu am y rhent a thaliadau gwasanaeth fydd yn daladwy ar gyfer eu hannedd yn y flwyddyn i ddod. Rhoddir cyfle i denantiaid bob blwyddyn i roi adborth ar y taliadau gwasanaeth, ac fe'u cynghorir sut y gallant apelio a beth yw'r hawliau cyfreithiol.

104) Caiff ôl-ddyledion rhent eu monitro gan Gydlynwyr Tai sy'n gweithredu'n gynnar i atal ôl-ddyledion rhag cronni, gan gynnig gwasanaeth cyfeirio os oes modd i'r sefydliad mwyaf addas ar gyfer cyngor ariannol neu gyngor ar fudd-daliadau neu ddyledion. Caiff ôl-ddyledion rhent eu monitro drwy system adrodd Metrics i weld os yw'r targed yn cael ei gyflawni. Bu nifer y tenantiaid gydag ôl-ddyledion yn gostwng flwyddyn-ar-flwyddyn am dair blynedd. Mae Ffigur 3 islaw, a ddaw o adroddiad meincnodi blynyddol Housemark, yn dangos y gwelliannau a wnaeth y Gymdeithas wrth reoli ôl-ddyledion rhent. Mae'r bar oren yn dangos y Gymdeithas yn 2008/09 a'r bar coch yn dangos y Gymdeithas yn ystod 2009/10.



Ffigur 2

105) Mae perthynas ardderchog rhwng swyddogion ymweld â thenantiaid sy'n golygu rapport da wrth drin problemau tenantiaid. Mae staff yn 'adnabod eu tenantiaid'.

106) Mae'r cymunedau y mae anheddau'r Gymdeithas ynddynt wedi eu cynnal a'u cadw yn dda ac yn ddeniadol. Mae staff y Gymdeithas yn cynnal ymweliadau unigol a cherdded o amgylch stadau gan annog tenantiaid i edrych ar ôl eu cartrefi drwy helpu i lanhau stadau. Canfu arolwg Status fod 80.7% o denantiaid yn hapus gyda'u cymunedau fel lleoedd i fyw. Mae Cydlynwyr Gwasanaethau Tenantiaid yn hysbysu tenantiaid pan y cynhelir y teithiau stad ac mae gwybodaeth bellach hefyd yn LOOK, y cylchlythyr tenantiaid. Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall wella yn y maes hwn a chynhwyswyd hwn fel rhan o'r cynllun gweithredu. ***Pwynt Gweithredu 19***

107) Dangosodd arolwg Status mai ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r un maes lle mae tenantiaid yn lleiaf bodlon gyda'r gwasanaeth. Fel y gwelir yn nata Housemark, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gymharol brin ond serch hynny mae'n fater o bryder i denantiaid. Felly mae'r Gymdeithas yn cynnal adolygiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd fel rhan o Gynllun Gweithredu Status. ***Pwynt Gweithredu 14.***

108) Mae Cydlynwyr Tai yn anfon manylion o'r annedd adeg cynnig tenantiaeth, gan roi amser i'r darpar denant ddarllen drwy'r wybodaeth cyn cyfarfod gyda'r tenant yn yr annedd yn gyntaf i weld yr annedd ac yr ail dro i drosglwyddo'r allweddi. Aiff y Cydlynydd Tai drwy'r prif bwyntiau o fewn y cytundeb tenantiaeth a hefyd y llawlyfr tenantiaid. Ar y cam hwn y caiff y tenant newydd wybod am eu cyfrifoldebau (a rhai y Gymdeithas) yng nghyswllt y denantiaeth a chynnal a chadw'r annedd. Byddwn yn datblygu llyfryn gwybodaeth ddefnyddiol i denantiaid. ***Pwynt Gweithredu 14.***

Canlyniadau Cyflawni	**Dyfarniad y Gymdeithas**
Rydym yn defnyddio'r ffurf fwyaf diogel ar denantiaeth sy'n gydnaws â diben y tai.	**Da**
Rydym yn nodi'n glir hawliau a dyletswyddau'r tenant a'r landlord o ddechrau'r denantiaeth, ac rydym yn gweithredu i gynnal yr hawliau a'r dyletswyddau hyn mewn modd teg a chyfrifol.	**Rhagorol**
Rydym yn gwybod anghenion cymorth tai unigol pobl ac yn ymateb iddynt ac rydym yn eu helpu i gynnal eu tenantiaethau.	**Boddhaol**
Mae ein rhenti yn fforddiadwy i gartrefi ar incymau isel, maent yn ystyried costau rheoli a chynnal a chadw ein tai ac yn ein galluogi i ad-dalu'r benthyciadau.	**Da**
Rydym yn pennu, yn dosrannu ac yn casglu rhenti a thaliadau gwasanaeth mewn modd sy'n glir, teg ac atebol, gan roi cyfle i bobl leisio eu barn ar natur ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gennym nad yw'r rhent yn eu cwmpasu.	**Boddhaol**
Rydym yn cynorthwyo tenantiaid i atal ôl-ddyledion rhent a thaliadau gwasanaeth rhag codi ac rydym yn gweithredu'n gyflym i atal ôl-ddyledion rhag cronni. Rydym yn adennill unrhyw ôl-ddyledion mewn modd teg ac effeithiol tra'n helpu tenantiaid i dalu'r taliadau sy'n ddyledus.	**Rhagorol**
Mae'r cymunedau lle y lleolir ein heiddo yn ddeniadol, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, yn lleoedd diogel i fyw, mannau y mae pobl am ymgartrefu ac aros ynddynt ac maent yn darparu ansawdd bywyd da ar gyfer ein tenantiaid a'u cymdogion.	**Da**

(b.4) ***Rydym yn atgyweirio cartrefi ac yn eu cynnal a'u cadw mewn ffordd effeithlon, teg a chost effeithiol.***

109) Mae'r Gymdeithas yn gweithio i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2012/13 ac mae rhaglen wedi'i chynllunio ar waith i gyflawni hyn. Dengys arolwg annibynnol diweddar fod y Gymdeithas ar darged i gyflawni'r nod yma. ***Pwynt Gweithredu 20***

110) Mae swyddogion ar ymweliad yn cynnal arolygon misol ar gyflwr stoc ar anheddau fel gwelliant parhaus. Caiff targedau blynyddol eu gosod a'u cyflawni.

111) Caiff contractwyr eu dethol drwy'r broses OJEU mewn cysylltiad â phartneriaid Undod i wireddu arbedion maint. Cymerodd tenantiaid ran yn y broses ddethol. Caiff y broses OJEU ar gyfer y cytundeb fframwaith 4-blynedd nesaf ei llofnodi yn y dyfodol agos. Cafodd y broses dethol contractwyr ei chwblhau ac mae'r contractwyr a ddewiswyd wedi llofnodi eu contractau. ***Pwynt Gweithredu 21***

112) Mae adborth tenantiaid yn dangos lefelau uchel o foddhad gyda gwasanaeth atgyweiriadau y Gymdeithas. Dangosir hyn yn adroddiad misol Metrics, adborth arolwg Status ac arolwg Housemark yn 2008. Rhoddir adroddiad misol ar dystiolaeth o atgyweiriadau nas cwblhawyd ar amser yn adroddiad Metrics ac i bartneriaid Undod. Mae'r siart islaw yn dangos yr atgyweiriadau hynny na chafodd eu cwblhau ar amser: dynododd y Gymdeithas fod cyflymder cwblhau atgyweiriadau yn faes i'w wella, a gweithredir ar hyn pan adolygir targedau ar gyfer y Metrics blynyddol ynghyd â'r cytundebau fframwaith newydd ar gyfer contractwyr. Bydd gwelliannau yn y maes yma yn flaenoriaeth Cynllun Busnes ar gyfer 2011/12. ***Pwyntiau Gweithredu 22 a 23***

Blwyddyn	Canran cyfartalog atgyweiriadau nas cwblhawyd ar amser	Targed	Categori Atgyweiriad
2007/08	26%	10%	Argyfwng
	26%	15%	Heb fod yn frys
	22%	15%	Brys
2008/09	10%	10%	Argyfwng
	14%	15%	Heb fod yn frys
	16%	15%	Brys
2009/10	6.9%	10%	Argyfwng
	9.6%	15%	Heb fod yn frys
	5.7%	15%	Brys
2010/11 hyd yma	7%	10%	Argyfwng
	12.7%	15%	Heb fod yn frys
	13%	15%	Brys

Canlyniadau Cyflawni	**Dyfarniad y Gymdeithas**
Mae gennym gynlluniau cyflawnadwy a fforddiadwy ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella ein cartrefi drwy eu hoes.	**Boddhaol**
Rydym yn cyflawni rhaglenni cynnal a chadw yn effeithlon ac yn effeithol.	**Da**
Rydym yn darparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol effeithlon ac effeithiol sy'n bodloni gofynion ein tenantiaid.	**Da**

(b.5) ***Rydym yn darparu gwasanaethau teg ac effeithlon i berchnogion.***

113) Mae'r Gymdeithas yn gwerthu unrhyw anheddau yn deg, gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd unrhyw anheddau ar werth yn hollol agored i'r farchnad.

114) Caiff unrhyw daliadau gwasanaeth a wnaed i lesddeiliaid a rhanberchnogion eu cyfrif yn unol â deddfwriaeth. Bydd lesddeiliaid yn rhan o'r grŵp ymgynghori a ffurfiwyd yn ddiweddar fel rhan o'r Adolygiad o Daliadau Gwasanaeth.

Canlyniadau Cyflawni	Dyfarniad y Gymdeithas
Rydym yn gwerthu tai yn deg ac yn effeithlon drwy gynlluniau Hawl i Brynu/Hawl i Gaffael	**Da**
Rydym yn darparu gwsanaethau teg, effeithlon ac effeithiol i berchnogion lesddaliad a chydberchnogaeth.	**Boddhaol**

Ch) Casgliad

Ceisiodd y Gymdeithas gynnal hunanasesiad mewn modd sy'n ei galluogi i ddynodi meysydd o gyflenwi gwasanaeth y dylai eu blaenoriaethu ar gyfer gwella. Mae'n hyderus nad oes unrhyw ganlyniadau cyflawni lle mae'r gwasanaeth y mae'n ei darparu yn WAEL, a gall ddod i'r casgliad gan fodloni'r Bwrdd fod y Gymdeithas yn cyflawni ei Safon Rheoleiddio. Ei nod yw sicrhau gwasanaeth y mae derbynnwyr "wrth eu bodd" ag ef a byddant felly'n rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny lle mae'r dyfarniad yn "foddhaol" yn unig fel meysydd allweddol ar gyfer gwella.

Ceisiodd y Gymdeithas ddatblygu ei phroses hunanasesiad mewn modd sy'n ei gwneud yn bosibl alinio'r canlyniadau gyda gweithgareddau ehangach Cynllun Busnes, a bydd sicrhau gwelliant amlwg mewn canlyniadau cyflenwi o foddhaol i dda yn flaenoriaeth Cynllun Busnes ar gyfer 2011/12 ymlaen.

Thema gyffredinol a ddynodir hefyd fel blaenoriaeth UCHEL yn y Cynllun Busnes yw gwella ymgysylltu â thenantiaid ym mhob rhan o weithgareddau'r Gymdeithas. Mae casglu mwy o ddata ar flaenoriaethau tenantiaid, ymgeiswyr a rhanddeiliaid yn ehangach drwy arolygon ac ymchwil arall i'r farchnad hefyd yn flaenoriaethau Cynllun Busnes sy'n anelu i wella canlyniadau cyflawni ym mlynyddoedd y dyfodol, ac yn bwysicach wella darpariaeth gwasanaeth.

Canlyniad Cyflawni	Pwynt Gweithredu	Mesur drwy	Dyddiad targed	Gweithredu gan	Cynnydd
Rydym yn rhoi'r bobl sydd am ddefnyddio ein gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith – gan roi'r dinesydd yn gyntaf.	***Pwynt Gweithredu 1*** • Gorffen datblygu gêm ryngweithiol 'Gwario' ar y we i annog mwy o denantiaid i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaeth. • Cynyddu nifer y tenantiaid y mae'r Gymdeithas yn ymgysylltu â hwy. ***{CP}*** • Cyflwyno 'Hyrwyddwyr Tenantiaid' ar stadau	• Gêm yn fyw • Defnyddio canlyniadau i asesu blaenoriaethau'r cynllun busnes yn y dyfodol • 'Pot o arian' yn y gêm i ddod yn gyllideb real. • Mireinio monitro ymgysylltu a chyflwyno "Metrics" o'r newydd	• Ch1 - 2011/12 • Ch 3 – 2011/12 • 2013/14 • Ch2 – 2011/12 • 2012/13	• Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Prif Weithredydd • Grŵp Uwch-swyddogion • Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid/Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid	
	Pwynt Gweithredu 2 • Adolygu Cynllun Gweithredu Strategaeth Lleol Cyfranogiad Tenantiaid gan ymgynghori gyda'r "Grŵp 50" a'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer 2011/12	• Cwblhau ymgynghoriad	• Ch1 - 2011/12	• Rheolydd Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chefnogaeth (CASS)	
	Pwynt Gweithredu 3 • Adolygu Safon Gwasanaeth Cwsmeriaid • Adolygu Proses Cwynion a Iawndal, gan roi ystyriaeth i newidiadau arfaethedig gyda gwasanaeth ombwdsman. Sicrhau bod system gadarn o wella gwasanaeth ar waith.	• Ymgynghori â thenantiaid • Adroddiad i'r Bwrdd • Ymgynghori â thenantiaid • Adroddiad i'r	• Mehefin 2011/12 • Tachwedd 2011/12 • Awst 2011/12 • Tachwedd	• Rheolydd CASS • Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi	

	• Archwilio meysydd o'r busnes lle medrwn roi mwy o ran i denantiaid. Datblygu dull mwy cyson o ganfod yr hyn mae tenantiaid ei eisiau.	Bwrdd • Trafod gyda'r Fforwm Tenantiaid a Thrigolion, Grŵp 50 ac Aroilygwyr Tenantiaid • Y Bwrdd i gytuno ar Gynllun Gweithredu	2011/12 • 2011/12 • 2012/13	• Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid • Rheolydd CASS	
	Pwynt Gweithredu 4 • Darparu Llawlyfr Tenantiaid diwygiedig (2010/11) mewn fformatau gwahanol i weddu i anghenion proffil tenantiaid (yn arbennig sain) ***{CB}*** • Diweddaru'r weithdrefn ar gyfer mynediad tenantiaid i ffeiliau personol – yn cynnwys unrhyw gostau am fynediad/gweinyddu, a chynnwys o fewn y Llawlyfr Tenantiaid.	• Pan ofynnir am fformatau eraill • Pan ail-argreffir	• Ch1 – 2011/12 • Ch1 – 2011/12	Rheolydd Gwasanaethau Tai	
	Pwynt Gweithredu 5 • Ymgynghori â thenantiaid p'un a yw'r fformat newydd ar gyfer taliadau gwasanaeth yn welliant ai peidio ar ôl anfon hysbysiadau rhent/tâl gwasanaeth	• Grŵp Uwch Swyddogion i ystyried canlyniadau a chytuno ar welliannau pellach	Ch3 – 2011/12	Rheolydd Cyllid	
	Pwynt Gweithredu 6 • Recriwtio tenantiaid ychwanegol i eistedd ar y Bwrdd ***(CB}*** • Annog diddordeb drwy gynnal cyfarfodydd Bwrdd mewn ardaloedd eraill	• Mwy na 1 tenant ar y bwrdd • Uchafswm o 4 • Cynnal un cyfarfod yng Ngheredigion	• erbyn Ch 3 – 2011/12 • 2013/14 • Ch2 2011/12	• Prif Weithredydd / Pwyllgor Enwebiadau • Prif Weithredydd / Pwyllgor Enwebiadau • Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol	

		• Cynnal un cyfarfod yn Nhrefyclo	• Ch3 2011/12	• Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol	
Rydym yn ymfalchïo yng ngwerthoedd y sector cyhoeddus drwy gynnal ein busnes â gonestrwydd ac uniondeb, ac yn dangos llywodraethu da drwy ein hymddygiad	***Pwynt Gweithredu 7*** • Cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar wefan (eitemau heb fod yn gyfrinachol) • Recriwtio Aelod o'r Bwrdd o gefndir ariannol	• Lanlwytho cofnodion bob mis • Hysbysu tenantiaid am argaeledd drwy gylchlythyr • Yng nghylch nesaf recriwtio Bwrdd	• Ch1 2011/12 • Ch1 2011/12 • 2011/12	• Prif Weithredydd • Rheolydd Gwasanaethau Tai • Prif Weithredydd/ Pwyllgor Enwebiadau	
	Pwynt Gweithredu 8 • Parhau i ddatblygu ymarferiad proffilio tenantiaid, gan ofyn i denantiaid yn rheolaidd am ddiweddariad ar amgylchiadau ***{CB}*** • Dynodi meysydd lle medrir teilwra gwasanaethau'n well i nodweddion arbennig.	• Pan aeth gohebiaeth at denantiaid lle na chedwir data a phan y derbynnir ymatebion • Unwaith y cwblhawyd dadansoddi'r uchod	• Ch1 - 2011/12 ymlaen • Ch3 2011/12	• Rheolwyr CASS / Gwasanaethau Tai / Rheolwyr Asedau • Tim Rheoli Gweithredol	
	Pwynt Gweithredu 9 • Cwblhau Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. • Asesu camau gweithredu pellach sydd eu hangen a chyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer 2011/12/	• Adroddiad i'r Bwrdd	• Mawrth 2011 • 2011/12	Prif Weithredydd	

	Pwynt Gweithredu 10 • Cwblhau Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg • Asesu camau gwetihredu pellach sydd eu hangen a chyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg 2011/12 • Cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg drwy recriwtio • Sicrhau fod un siaradwr Cymraeg rhugl yn CASS/Derbynfa ***{CB}***	• Adroddiad i'r Bwrdd • % uwch o siaradwyr Cymraeg • Penodiad	• Mawrth 2011 • Bob blwyddyn o 2011/12 • 2011/12	• Prif Weithredydd • Rheolydd CASS • Rheolydd CASS	
Rydym yn sicrhau bod ein diben yn glir ac rydym yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd gennym – gan wybod pwy sy'n gwneud beth a pham	***Pwynt Gweithredu 11*** • Parhau i weithredu system rheoli perfformiad Covalent. • Adolygu meysydd sylfaenol perfformiad i fonitro canlyniadau cyflawni'n well yn y dyfodol.***{CP}***	• Cynllun Busnes a Chynllun Hunanasesiad mewn Covalent • Risg (BS & OPS) mewn Covalent • Gweithredu "Metrics" diwygiedig	• Ch1 – 2011/12 • Ch2 – 2011/12 • Ch2 – 2011/12	• Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Tîm Rheoli Gweithredol/Grŵp Uwch Swyddogion	
	Pwynt Gweithredu 12 • Adolygu Cynllun Awgrymiadau Staff i annog syniadau ar gyfer gwella gwasanaeth. • Trafod syniad o gynllun awgrymiadau tenantiaid gyda'r Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr fel rhan o'r adolygiad o gynllun gwethredu y Strategaeth Leol ar Gyfranogiad Tenantiaid.	• Trafod gyda Staff a'r Tîm Rheoli Gweithredol i ystyried newidiadau. • Gweler uchod.	• Yn ystod 2011/12 • Ch1 – 2011/12	• Adnoddau Dynol/Tîm Rheoli Gweithredol • Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid	
Rydym yn ymgysylltu ag eraill i wella a sicrhau canlyniadau i	***Pwynt Gweithredu 13*** • Cefnogi Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion wrth reoli'r rhaglen Grant Tai	• Presenoldeb mewn	2011/12	Rheolydd Datblygu	

ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'r gymuned	Cymdeithasol yn weithredol o 1/4/2011 ***{CB}*** • Cydweithredu gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill o fewn y siroedd i sicrhau y defnyddir yr holl Grant Tai Cymdeithasol yn y flwyddyn. • Datblygu rhaglen datblygu realistig, gan ddynodi cynlluniau sydd â mwy o risg a chyflwyno cynlluniau atodol a all ymdrin â llithriad. • Datblygu ymhellach berthynas strategol gyda Chyngor Sir Ceredigion ***{CB}***	cyfarfodydd rhaglen Grant Tai Cymdeithasol gyda'r ddau Awdurdod Lleol • Cytuno ar gynllun datblygu ar gyfer pob Sir i gynnwys pob LCC datblygu • Y Bwrdd yn cymeradwyo'r Rhaglen Datblygu • Sicrhau presenoldeb mewn Cyfarfodydd Tai Strategol. • Sefydlu perthynas gyda'r Tîm Adfywio	Mai 2011 Mehefin 2011 2011/12 2011/12	Rheolydd Datblygu Rheolydd Datblygu Prif Weithredydd/ Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol Prif Weithredydd/ Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol	
	Pwynt Gweithredu 14 • Cwblhau adolygiad cyfredol o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. ***{CB}*** • Gweithredu camau gweithredu a gytunwyd yn ystod y flwyddyn • Adolygu effeithiolrwydd cost y swydd a gyd-ariannir yng Ngheredigion ar hyn o bryd • Cyflwyno pecyn llofnodi, a baratoir gan denantiaid ar gyfer tenantiaid, yn cynnwys cyfeiriadau cyswllt defnyddiol yn yr ardal,	• Adrodd i'r Bwrdd • Monitro camau gweithredu drwy'r Pwyllgor Craffu • Pan drafodir mewn cyfarfod gyda Chyngor Ceredigion • Pan y'i cyflwynir.	• Gorff. 2011/12 • Ch3 2011/12 • Ch2 - 2011/12	• Rheolydd Gwasanaethau Tai • Rheolydd Gwasanaethau Tai • Rheolydd Gwasanaethau Tai • Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid/Rheolydd Gwasanaethau Tai	

	lleoliad siopau neu gyfleusterau eraill.		• Ch3 - 2011/12		
	Pwynt Gweithredu 15 • Cynhyrchu "e-gylchlythyr" misol o weithgareddau ar gyfer rhanddeiliaid, yn cynnwys aelodau etholedig • Hyrwyddo'r Gymdeithas ar lefel y gymuned drwy ddefnydd targedig o nawdd • Datblygu arolwg newydd ymysg rhanddeiliaid yn unol gydag asesiad o ganlyniadau cyflawni.	• Cynhyrchwyd 12 • Grwp Uwch Swyddogion i fonitro effeitholrwydd • Noddi dim llai na 10 digwyddiad cymunedol • Dyddiad cychwyn • Gwerthuso canlyniadau	• Bob mis • Medi 2011 a Mawrth 2012 • Haf 2011/12 • Ch1 – 2011/12 • Ch3 – 2011/12	• Prif Weithredydd + Rheolydd CASS + Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Prif Weithredydd + Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Rheolydd CASS i gydlynu • Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Grŵp Uwch Swyddogion	
Rydym yn adeiladu ac yn adnewyddu cartrefi i safon dda	***Pwynt Gweithredu 16*** • Dadansoddi cost gyfredol datblygu a dynodi dulliau ar gyfer gostwng gorbenion ***{CB}***	• Adrodd i'r Bwrdd	Awst 2011	• Cyfarwyddydd Gwasanaethau Corfforaethol + Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol + Rheolydd Datbygu	
Rydym yn gosod cartrefi mewn ffordd sy'n deg, tryloyw ac effeithiol	***Pwynt Gweithredu 17*** • Cyhoeddi canlyniadau ymgynghoriad ar ddyraniadau ***{CB}*** • Gweithredu newidiadau i'r broses dyraniadau gan fabwysiadu egwyddorion cyd-gynhyrchu	• Anfon papur at randdeiliaid ac ar y wefan • Cynghori tenantiaid drwy gylchlythyr • Y Bwrdd i gytuno ar	• Ch1 – 2011/12 • Ch1 – 2011/12 • Ionawr 2012	• Prif Weithredydd + Rheolydd Gwybodaeth a Pholisi • Rheolydd Gwasanaethau Tai • Cyfarwyddydd Gwasanaethau	

	gyda LCC eraill a rhanddeiliaid allweddol (os yw'r ymgynghoriad yn galw am hynny) ***{CB}*** • Datblygu a chyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd i ymgeiswyr yn cynnwys amcangyfrif "amser aros" • Cwblhau Adolygiad Systemau Darbodus	system newydd • Cyhoeddi'n chwarterol • Adrodd ar ganlyniadau ac amser staff a arbedwyd/ canlyniadau eraill i'r Bwrdd	• 2012/13 • Ch4 2011/12	Gweithredol + Rheolydd Gwasanaethau Tai • Rheolydd Gwasanaethau Tai • Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol/ Cydlynydd Gwybodaeth a Pholisi	
Rydym yn rheoli ein cartrefi'n effeithiol	***Pwynt Gweithredu 18*** • Gweithredu argymhellion o'r Adolygiad Tâl Gwasanaeth	• Monitro drwy'r Pwyllgor Craffu	2011/12	Rheolydd Cyllid	
	Pwynt Gweithredu 19 • Sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i deithiau stad drwy gylchlythyrau, ar y wefan a gohebu uniongyrchol	• Pan gyhoeddir mewn cylchlythyrau, gwefan ac ati	Pob cylchlythyr chwarterol yn weithredol o 2011/12	Rheolydd Gwasanaethau Tai	
Rydym yn atgyweirio cartrefi ac yn eu cynnal a'u cadw mewn ffordd effeithlon, teg a chosteffeithiol.	***Pwynt Gweithredu 20*** • Cwblhau rhaglen gwaith i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. ***{CB}*** • Dilysu cynnydd tuag at gydymffurfiaeth erbyn 2012/13 yn annibynnol yn ystod y flwyddyn	• Cwblhau 100% o'r rhaglen flynyddol • Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu	• 2011/12 & 12/13 • Ch4 – 2011/12	• Rheolydd Asedau • Cyfarwyddydd Gwasanaethau Gweithredol	
	Pwynt Gweithredu 21 • Gweithio gyda chontractwyr fframwaith newydd i arddangos gwelliannau mewn gwasanaeth cynnal a chadw ymatebol (yn arbennig cyfraddau ymateb argyfwng a chyfran gwaith a wneir drwy apwyntiad.) ***{CB}***	• Cytundeb lefel gwasanaeth. • Cytuno a chyflwyno cynllun apwyntiad gyda Fforwm Tenantiaid a Phreswylwyr.	• Ch1 – 2011/12 • Ch2 – 2011/12	• Rheolydd Asedau	

		• Cytuno ar gynlluniau gwella unigol gyda phob contactydd a mesur perfformiad.	• Ch2 – 2011/12 a bob blwyddyn wedyn		
	Pwynt Gweithredu 22 Cyflwyno cwestiynau newydd ar gyfer bodlonrwydd tenantiaid gyda gwasanaeth atgyweiriadau: 1) Pa mor fodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth atgyweiriadau (o'r dechrau i'r diwedd) 2) A gafodd ei gwblhau y tro cyntaf?	• Mesur fel rhan o Metricss wedi'i ddiwygio.	• 2011/12	Gweithredu drwy Denant Arolygwyr	
	Pwynt Gweithredu 23 Cynnal arolygon ffôn o denantiaid i fesur lefel boddhad gyda gwasanaeth atgyweiriadau.	• Mesur fel rhan o Metricss wedi'i ddiwygio	• 2011/12	Gweithredu drwy Denant Arolygwyr	

Atodiad 2

	Tenantiaid Presennol	**Ymgeiswyr**
Rhyw	Benyw - 54.31% Gwryw - 44.79% Anhysbys - 0.89%	Benyw - 52.43% Gwryw - 47.57%
Oed	Dan 30 – 18.26% 30 – 60 – 51.34% 60 – 90 – 18.5% Dros 90 – 0.36% Anhysbys– 11.54%	Dan 30 – 34.22% 30 – 60 – 45.68% 60 – 90 – 19.94% Dros 90 – 0.16%
Iaith a Siaredir	Saesneg – 23.5% Cymraeg – 0.48% Anhysbys– 76.03%	Di-Gymraeg – 52.90 % Cymraeg – 5.49% Anhysbys – 41.60%
Ethnigrwydd	AsiaiddAsiaidd Prydeinig – Arall – 0.12% Du/Du Prydeinig – Affricanaidd – 0.06% Du/Du Prydeinig – Arall – 0.06% Cymysg – Gwyn a Du Caribiaidd – 0.06% Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd – 0.06% Anhysbys – 8.21% Prydeinig Gwyn – Saeson, Cymry, Albanwyr, Arall – 90.78% Gwyddelig Gwyn – 0.06% Gwyn arall – 0.59%	Anhysbys – 6.28% Prydeinig Gwyn – Saeson, Cymry, Albanwyr, Aral– 90.58% Gwyddelig Gwyn – 0.16% Gwyn arall – 2.67% Gwyn Cymysg ac Asiaidd – 0.16% Cymysg arall – 0.16%
Crefydd	Bwdydd– 0.12% Cristion - 12% Hindw– 0.06% Mwslem – 0.06% Dim crefyd neu ffydd – 12.49% Crefydd arall – 0.65% Anhysbys – 70.61%	Cristion - 22.76% Hindw – 0.16% Mwslem – 0.16% Dim crefydd neu ffydd – 30.30% Crefydd arall – 1.41% Anhysbys – 45.21%
Cyfeiriadedd Rhywiol	Deurywiol– 0.18% Dyn hoyw – 0.06% Dynes hoyw – 0.24% Heterorywiol – 17.19% Arall – 0.30% Anhysbys – 82.03%	Anhysbys – 100%
Anabledd	Na – 13.92% Oes – 11.90% Anhysbys – 74.18%	Na – 19.94% Oes – 5.97% Anhysbys – 74.10%

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru – arolwg Cynghorwyr Sir

1. Sut fyddech chi'n disgrifio'r enw sydd gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru am gyflawni strategaeth genedlaethol tai Llywodraeth Cynulliad Cymru? (Ticiwch un blwch yn unig ar bob llinell)					
	Rhagorol	Da	Boddhaol	Annigonol	Ansicr
a. Darparu'r cyfuniad cywir o gartrefi		57%	29%		14%
b. Defnyddio tai i helpu i wella bywydau		43%	57%		
c. Cryfhau cymunedau lleol		29%	43%	29%	
d. Mynd i'r afael â her newid yn yr hinsawdd		38%	12%		50%
e. Darparu gwasaneth gwell		29%	29%		43%

2. Sut fyddech chi'n disgrifio'r enw sydd gan Gymdeithas Tai Canolbarth Cymru am gyflawni blaenoriaethau tai lleol (ym Mhowys/Ceredigion)? (Ticiwch un blwch yn unjig ar bob llinell)					
	Rhagorol	Da	Boddhaol	Annigonol	Ansicr
a. Tai fforddiadwy	29%	43%	14%	14%	
b. Cefnogi pobl gydag anghenion arbennig		43%			57%
c. Gwella ansawdd tai ac amgylcheddau tai		57%	29%		14%
d. Gwneud cartrefi yn fwy effeithiol o ran ynni		43%			57%
e. Gostwng digartefedd		14%	14%	14%	57%

3. A oes prosiect penodol gan Gymdiethas Tai Canolbarth Cymru a deimlwch sydd wedi diwallu anghenion cymunedau lleol yn y ffordd orau?
Disgrifiad o ddatblygiad neu gynllun
Llanbrynmair Ansicr Dim barn Diwallu anghenion tai cyffredinol: Stadau Maes y Garth a Craigfryn ym Machynlleth Dim un yn dod i fy meddwl, maent oll yn foddhaol wrth ddiwallu anghenion pobl lleol MAESYDDERWEN, LLANFYLLIN – Ni ddarparwyd digon ohonynt ar gyfer pobl leol, cafodd gormod o bobl o ffwrdd o ardaloedd mwy trefol gartrefi.

4 Pa mor dda mae Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yn eich cadw mewn cysylltiad gyda newyddion a'r datblygiadau diweddaraf?			
Ardderchog	Da	Gweddol	Gwael
14%	29%	14%	43%

5. Pa un argymhelliad a roddech i'n helpu i wella ein gwasanaeth?
Y prif beth ar gyfer pob Cymdeithas Tai yw'r angen am hyblygrwydd gan helpu teuluoedd lleol sy'n gorfod aros am hir i gael mynediad i dai cymdeithasol/fforddiadwy Gallu i ddenu mwy o Grant Tai Cymdeithasol. Byddai rhai'n dweud gwell cyfathrebu. Yn fy rôl fel cynghorydd sir, gwybodaeth reolaidd drwy e-bost ar boilsi, atgyweiriadau sylweddol a chynlluniau tai newydd. Defnyddio gwybodaeth leol a chael eich gweld fel bod yn cartrefi teuluoedd ifanc normal. Rwy'n teimlo na fedraf ateb cwestiwn 8 oherwydd nad wyf wedi profi unryhwy beth y medrwn ei ddweud oedd o safon uchel iawn. Rwyf wedi gweld preswylydd yn gorfod aros mewn annedd sy'n amlwg yn anaddas ac a fu felly am gyfnod sylweddol. Gwelais gyfaill teuluol mewn annedd sydd mewn angen dybryd am ei atgyweirio, y gegin yn syrthio'n ddarnau. Fy argymhelliad fyddai buddsoddi'n sylweddol fwy o amser ac arian yn Llandrindod. Hi yw tref sirol Powys ac mae ganddi lawer o boblogaeth. Byddai'n rhoi llety fforddiadwy modern i fwy o deuluoedd, ac yn mynd beth ffordd i ostwng digartrefedd.

Safle: Rhwng y 3 uchaf a'r 5 uchaf

Cymeradwyodd Bwrdd Rheoli Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru yr Hunanasesiad sydd wedi'i atodi ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd Rheoli: 

Nick Hoskins, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli

Dyddiad: 31.03.2011

Llofnodwyd ar ran y Gymdeithas: 

Shane Perkins, Prif Weithredydd

Dyddiad: 31.03.2011